**Cofnodion o Gyfarfod Grŵp Trawsbleidiol Gogledd Cymru yn Senedd Cymru, dydd Gwener 1 Gorffennaf 2022**

**<u>Yn bresennol</u>**

**Aelodau o Senedd Cymru:**

Mark Isherwood AoS (Cadeirydd), Gareth Davies AoS, Llyr Gruffydd AoS, Sam Rowlands AoS, Janet Finch-Saunders AoS, Rhun ap Iorwerth AoS, Dan Rose yn lle Carolyn Thomas AoS

**Aelod Seneddol:**

Mark Tami AS

**Arweinwyr Awdurdodau Lleol:**

Cyng. Dyfrig Siencyn (Gwynedd), Cyng. Mark Pritchard (Wrecsam), Cyng. Ian Roberts (Sir y Fflint), Cyng. Jason McLellan (Sir Ddinbych), Cyng. Charlie McCoubrey (Conwy)

**Swyddogion:**

<u>CLlLC</u>

Lucy Sweet (Ysgrifennydd newydd), Stephen Jones (Ysgrifennydd ar fin gadael), Chris Llewelyn (Prif Weithredwr), Daniel Hurford (Pennaeth Polisi, Gwelliant a Llywodraethu), Dilwyn Jones (Rheolwr Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus), Glesni Haf Parry (Swyddog Cyfathrebu, Cyfryngau Cymdeithasol).

<u>Llywodraeth Cymru</u>

Bryn Richards

Wyn Roberts

## 1. Croeso a Chyflwyniadau gan y Cadeirydd

## 2. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol ar 19 Mai 2022 a Materion yn Codi

Cytunodd aelodau'r grŵp bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod cywir.

Cafodd Lucy Sweet (CLlLC) ei hethol yn Ysgrifennydd newydd ar gyfer y grŵp, gan y bydd Stephen Jones yn cychwyn ar gyfnod secondiad y tu allan i CLlLC. Diolchodd y grŵp i Stephen am ei gefnogaeth i'r grŵp yma.

## 3. Adweithyddion Modwlar Bychan yn Nhrawsfynydd - Briff gan Rolls-Royce SMR

Rhoddodd Mark Salisbury o Rolls Royce SMR Ltd gyflwyniad am Adweithyddion Modwlar Bychan a'r potensial o leoli adweithydd peilot yn Nhrawsfynydd. (To Deliver Clean, Affordable Energy For All - Rolls Royce SMR (rolls-royce-smr.com))

Trafodaeth

**Profiad o RR yn adeiladu a gweithredu Adweithyddion Modwlar Bychan eraill (heblaw am y fyddin)? (Mark Tami AS)**

Fe soniodd Mark Salisbury sut mae RR yn canolbwyntio ar leihau ôl troed y ffatri. Mae llawer o ffatrïoedd heddiw wedi ymestyn eu hôl-troed oherwydd rheoliadau diogelwch, byddai ffatri RR yn ddiogel drwy ddylunio.

**Digon o gyflenwad dŵr? (Mark Tami AS)**

Mae RR yn cynnig defnyddio tyrrau dŵr oeri isel, sydd yn defnyddio ychydig iawn o ddŵr.

**Ymgysylltu gyda Llywodraeth Cymru? (Mark Isherwood AoS)**

Dywedodd Mark Salisbury nad oedd 100% yn sicr a bydd yn gwirio gyda'r Rheolwr Materion Corfforaethol sydd wedi bod yn gyfrifol am ymgysylltu â LlC, er fe ddywedodd bod Llywodraeth Cymru wedi cael llawer o drafodaethau gyda RR ers nifer o flynyddoedd bellach (dywedodd Mark Isherwood AoS fod LlC wedi ymgysylltu gyda'r holl werthwyr technoleg sydd â diddordeb).

Fe fydd RR yn y Senedd ddydd Mercher 6 Gorffennaf a byddent yn croesawu'r cyfle i weld aelodau o'r grŵp trawsbleidiol ar gyfer Gogledd Cymru ac ateb unrhyw gwestiynau pellach.

**Pa mor gynaliadwy yw'r cyflenwad wraniwm? (Mark Isherwood AoS)**

Wraniwm yw un o'r adnoddau y mae digonedd ohono. Mae 'llyfr coch' Asiantaeth Ynni Niwclear yn manylu'r adnoddau hysbys ac yn olrhain tueddiadau byd eang o ran cynhyrchu a galw. Mae'n edrych ar y 75-100 mlynedd nesaf.

**Ymgysylltu gyda chymunedau? (Mark Isherwood AoS)**

Nid oes safle wedi'i glustnodi eto felly byddai braidd yn fuan i ymgysylltu â'r gymuned. Yn ystod y cam yma o'r prosiect mae angen sicrhau'r lefel gywir o ymgysylltu heb osod disgwyliadau rhy uchel. Maent wrthi'n edrych ar safleoedd posibl ar hyn o bryd, wrth i safleoedd gael eu dewis, byddant yn cynyddu'r ymgysylltu â'r gymuned. Mae gan yna deimlad ychydig yn wahanol o ran Adweithyddion Modwlar Bychan i niwclear ar raddfa fawr, ond mae ymgysylltu â'r gymuned yn parhau i fod yn eithriadol o bwysig.

**Storio gwastraff?**

Roedd yna stori ddiweddar (Mark i rannu'r papur y mae'r stori wedi'i seilio arni) yn honni y byddai Adweithyddion Modwlar Bychan Rolls-Royce yn cynhyrchu mwy o

wastraff. Mae'r stori yn gamarweiniol ac mae RR yn trafod gyda'r newyddiadurwyr. Mae Mark yn hapus i ddarparu rhagor o wybodaeth.

O ran y gwastraff, mae RR yn y broses asesu dyluniad, yn dilyn rheoliad llym gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn rhan o'r broses hon. Bydd rhaid i RR brofi y byddant yn cynhyrchu cyn lleied o wastraff â phosibl a dangos bod ganddynt gynllun i ddelio ag unrhyw wastraff sy'n cael ei gynhyrchu.

Mae RR wedi cyfrifo y byddai'r Adweithydd Modwlar Bychan yn cynhyrchu maint cwrt tennis o wastraff hyd at 1.5m uchder dros 60 mlynedd.

Bydd RR yn defnyddio'r fframwaith presennol yn y DU ar gyfer storio gwastraff.

Cyfeiriodd Mark hefyd at y gwastraff yn cael ei drosi mewn i gerameg tebyg i wydr i'w storio mewn ystorfa ddaearegol.

**Swyddi - oes yna unrhyw beth y gall AoS/AS ac Arweinwyr ei wneud i sicrhau bod swyddi'n cael eu creu yng Ngogledd Cymru? (Sam Rowlands AoS)**

Ysgrifennodd RR at Bartneriaethau Cyflogaeth Lleol a Llywodraeth Cymru ychydig fisoedd yn ôl ynglŷn â safleoedd ar gyfer ffatrïoedd, cafwyd dros 100 o ymatebion.

Bydd RR yn cyhoeddi astudiaethau mwy manwl o safleoedd yn fuan.

**Sylwadau yn y cylch cyhoeddus ynglŷn â safleoedd anaddas (Cyng. Dyfrig Siencyn**

Dywedodd Mark nad oedd yn ymwybodol o unrhyw ddatganiadau am addasrwydd safleoedd.

## 4. Y newyddion diweddaraf gan Uchelgais Gogledd Cymru

<u>Diweddariad gan y Cyng. Dyfrig Siencyn</u>

Bydd y Cyng. Siencyn yn gofyn i'r Swyddog Rhaglen anfon briff at bawb am y sefyllfa ddiweddaraf o ran y Fargen Dwf.

Rhaglen 15 mlynedd o fuddsoddiad ar gyfer 4 rhaglen (digidol, carbon isel, eiddo tir a bwyd ac amaethyddiaeth).

Cyfnod rhwystredig i wleidyddion - mae'r gwaith sy'n ymwneud â pharatoi Achosion Busnes yn feichus ond mae rhai prosiectau yn symud yn eu blaenau (Canolfan Prosesu Signal Digidol, Bangor a Chysylltu'r % olaf)

Yn gweithio'n dda gyda Rhaglen Swyddfa Llywodraeth Cymru, yn argoeli'n dda ar gyfer Datblygu Economaidd i'r Gogledd yn y dyfodol.

Yn gweithio'n dda gyda Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.

<u>Trafodaeth</u>

**Pryd ydych chi'n rhagweld y bydd rhai o'r uchelgeisiau ar gyflogaeth ac ati'n cael eu cyflawni?  (Mark Isherwood AoS)**

Cwestiwn anodd, mae'n rhaid sefydlu prosiectau i allu asesu effeithiau

**Beth yw'r ffordd orau o gysoni dull rhanbarthol v lleol? (Mark Isherwood AoS)**

Ffyniant Bro - gallai greu tensiynau allai danseilio partneriaeth gref yn y Gogledd.

Cydweithio'n dda ar hyn o bryd.

Gwynedd yw'r ALI Arweiniol ar Y Gronfa Ffyniant Gyffredin, mae'r cyllid yn mynd iddyn nhw ac yna'n cael ei dalu i'r ALlau.

Mae'n ddarlun cymhleth ar draws partneriaeth gref yng Ngogledd Cymru.

O ble bynnag y daw'r cyllid, rydym eisiau iddo barhau i ddod i Ogledd Cymru (Cyng. Mark Pritchard)

## 5. Unrhyw Fater Arall

Dyfodol y Grŵp

Mae cyfarfod nesaf y grŵp ar 12 Tachwedd.

Bydd Lucy Sweet a Stephen Jones yn trefnu cyfarfod swyddogion gyda'r Cadeirydd, Carolyn Thomas AoS a Mabon ap Gwynfor AoS i drafod y rhaglen gwaith i'r dyfodol.

Ffyrdd Dosbarthu (Cynllun peilot LlC - terfynau cyflymder o 20mya)

Fe soniodd y Cyng. Ian Roberts am y mater a gofynnodd a oedd aelodau eraill o'r grŵp wedi derbyn gohebiaeth am yr A548 trwy Fwcle yn benodol. Gofynnodd i gydweithwyr edrych ar gynlluniau peilot. Dywedodd Mark Isherwood AoS ei fod wedi derbyn llawer ohebiaeth am y mater yma.

Gwasanaethau Plant

Fe soniodd y Cyng. Mark Pritchard am y pwysau ar wasanaethau plant. Roedd £10.5 miliwn ychwanegol wedi cael ei roi tuag at y mater yma yn Wrecsam.

Os oedd ALlau gyda'i gilydd neu'n unigol eisiau i wasanaethau plant gael eu cynnwys fel testun ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol, gadewch i Lucy Sweet (Ysgrifennydd) neu'r Cadeirydd wybod.